# Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus
# yn ymdrin â’r lôn i’r cefn o Wesley Street a Lloyd Street, Caerau, Maesteg

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59, 64 a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (“y Ddeddf”) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**1.** Daw’r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 18 Mehefin 2019 a bydd yn effeithiol am dair blynedd wedyn, oni chaiff ei ymestyn gan Orchymyn arall o dan bwerau statudol y Cyngor.

**2.** Mae’r Gorchymyn hwn yn ymwneud â’r Briffordd i’r cefn o Wesley Street a Lloyd Street, Caerau, ac a bennir ar y Plan a atodwyd ar gyfer Gorchymyn Gatio yn ymdrin â’r lôn i’r cefn o Wesley Street a Lloyd Street, Caerau ac a bennir ar y plan a atodwyd (Atodlen 2 Gorchymyn Gatio Wesley Street a Lloyd Street) ("yr Ardal Gyfyngedig"). Mae hwn yn dir y mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn gymwys iddo a chaiff ei ddiogelu drwy wneud y Gorchymyn Arfaethedig hwn.

**3.** Mae’r Cyngor wedi’i fodloni bod yr amodau a nodir yn Adran 59(2) o’r Ddeddf wedi’u bodloni, sef bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau troseddol wedi’u cyflawni yn yr Ardal Gyfyngedig. Mae’r gweithgareddau hyn wedi creu effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai sydd yn yr ardal, ac mae’n debyg y caiff y gweithgareddau eu cyflawni yn yr ardal honno gan greu effaith o’r fath.

**4.** Mae’r Cyngor wedi’i fodloni hefyd fod yr amodau a nodir yn Adran 59(3) o’r Ddeddf wedi’u bodloni, sef bod effaith neu effaith debygol y gweithgareddau’n barhaus neu’n gyndyn eu natur neu’n debyg o fod felly a’u bod yn afresymol ac yn cyfiawnhau’r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn a’i bod o dan yr holl amgylchiadau yn hwylus gwneud y Gorchymyn hwn er mwyn lleihau troseddau a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

**5.** Enw’r Gorchymyn Arfaethedig yw Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y Fwrdeistref yn ymdrin â’r Lôn Gefn rhwng Wesley Street a Lloyd Street, Caerau, Maesteg.

## Drwy’r Gorchymyn Arfaethedig hwn

**6.** Effaith y Gorchymyn hwn fydd cyfyngu’r hawl dramwy gyhoeddus dros yr Ardal Gyfyngedig rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn rhwng 5.30pm un diwrnod a 9.00am drannoeth ac ar ddydd Sul a phob Gŵyl Gyhoeddus, am 24 awr. Bydd amserau’r gaeaf a’r haf yn adlewyrchu amserlenni Amser Cymedrig Greenwich ac Amser Haf Prydain. Mae’r Gorchymyn hwn yn awdurdodi gosod gatiau siglo a all gael eu cloi ac a fydd yn gorfodi’r cyfyngiad.

**7.** Ni fydd y cyfyngiad yn Erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw berchennog cofrestredig ar fangre sy'n gyfagos i'r Ardal Gyfyngedig, nac i berson sy'n byw neu'n gweithio mewn mangre sy'n gyfagos i'r Ardal Gyfyngedig, nac i unrhyw bersonél heddlu, ambiwlans neu wasanaeth tân, sy'n gweithredu yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol nac i unrhyw ymgymerwr statudol, darparwr nwy, trydan, dŵr neu gyfathrebu y mae arno angen mynediad i'w gyfarpar a leolir yn yr Ardal Gyfyngedig, nac i bersonau a/neu gerbydau y mae eu hangen, yn ôl y gofyn, mewn cysylltiad â gwaith cynnal neu swyddogaeth arall i'r Cyngor.

**8.** Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi gosod rhwystrau a fydd yn gorfodi'r cyfyngiad.

**9.** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yn gyfrifol am gynnal y rhwystrau a gellir cysylltu â'r Cyngor unrhyw bryd ar 01656 643643

**10.** Mae llwybrau amgen ar gael ar hyd Wesley Street, Lloyd Street, y ffordd ddienw sy'n rhedeg rhwng Wesley Street a Lloyd Street a Library Road


**11.** Wrth ymgynghori ynghylch y Gorchymyn Arfaethedig hwn mae'r Cyngor wedi rhoi sylw penodol i'r hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i ryddid i ymgynnull a nodir yn Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**12.** Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, caiff unrhyw berson sydd â buddiant yn hyn o beth ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu na chydymffurfiwyd â gofyniad o dan y Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos ar ôl dyddiad gwneud y Gorchymyn.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar y

18 Mehefin 2019


Public Space Protection (Gating) Order
Wesley St/Lloyd St, Caerau
Scale: 1:1,000 @ A4 Landscape
Date Issued: 13/02/2018
Mark Shephard - Corporate Director - Communities
Communities Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.
(c) Crown Copyright and database rights (2018) Ordnance Survey (100023405)
(c) Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron (2018) Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans (100023405)
(c) Cities Revealed Aerial Photography copyright, The GeoInformation Group (2009)
Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176
LIBRARY ROAD
LLOYD STREET
WESLEY STREET
PLEASANT VIEW
GREENFIELD TERRAC
Track
Shaft
El Sub Sta

**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus**
**yn ymdrin â'r Lôn Gefn rhwng**
**Talbot Street a Plasnewydd Street, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59, 64 a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**13.** Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 18 Mehefin 2019 a bydd yn effeithiol am dair blynedd wedyn, oni chaiff ei ymestyn gan Orchymyn arall o dan bwerau statudol y Cyngor.

**14.** Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â'r Lôn Gefn rhwng Talbot Street a Plasnewydd Street, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, ac a bennir ar y Plan a atodwyd (Atodlen 1 Gorchymyn Gatio Maesteg) ("yr Ardal Gyfyngedig"). Mae hwn yn dir y mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn gymwys iddo a chaiff ei ddiogelu drwy wneud y Gorchymyn Arfaethedig hwn.

**15.** Mae'r Cyngor wedi'i fodloni bod yr amodau a nodir yn Adran 59(2) o'r Ddeddf wedi'u bodloni, sef bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau troseddol wedi'u cyflawni yn yr Ardal Gyfyngedig. Mae'r gweithgareddau hyn wedi creu effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai sydd yn yr ardal, ac mae'n debyg y caiff y gweithgareddau eu cyflawni yn yr ardal honno gan greu effaith o'r fath.

**16.** Mae'r Cyngor wedi'i fodloni hefyd fod yr amodau a nodir yn Adran 59(3) o'r Ddeddf wedi'u bodloni, sef bod effaith neu effaith debygol y gweithgareddau'n barhaus neu'n gyndyn eu natur neu'n debyg o fod felly a'u bod yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn a'i bod o dan yr holl amgylchiadau yn hwylus gwneud y Gorchymyn hwn er mwyn lleihau troseddau a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

**17.** Enw'r Gorchymyn Arfaethedig yw Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y Fwrdeistref yn ymdrin â'r Lôn Gefn rhwng Talbot Street a Plasnewydd Street, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr.

## Drwy'r Gorchymyn Arfaethedig hwn

**18.** Effaith y Gorchymyn hwn fydd cyfyngu'r hawl dramwy gyhoeddus dros yr Ardal Gyfyngedig rhwng dydd Llun a dydd Sadwrn rhwng 5.30pm un diwrnod a 9.00am drannoeth ac ar ddydd Sul a phob Gŵyl Gyhoeddus, am 24 awr. Bydd amserau'r gaeaf a'r haf yn adlewyrchu amserlenni Amser Cymedrig Greenwich ac Amser Haf Prydain. Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi gosod gatiau siglo a all gael eu cloi ac a fydd yn gorfodi'r cyfyngiad.

**19.** Ni fydd y cyfyngiad yn Erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys i unrhyw berchennog cofrestredig ar fangre sy'n gyfagos i'r Ardal Gyfyngedig, nac i berson sy'n byw neu'n gweithio mewn mangre sy'n gyfagos i'r Ardal Gyfyngedig, nac i unrhyw bersonél heddlu, ambiwlans neu wasanaeth tân, sy'n gweithredu yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol nac i unrhyw ymgymerwr statudol, darparwr nwy, trydan, dŵr neu gyfathrebu y mae arno angen mynediad i'w gyfarpar a leolir yn yr Ardal Gyfyngedig, nac i bersonau a/neu gerbydau y mae eu hangen, yn ôl y gofyn, mewn cysylltiad â gwaith cynnal neu swyddogaeth arall i'r Cyngor.

**20.** Mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi gosod rhwystrau a fydd yn gorfodi'r cyfyngiad.

**21.** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fydd yn gyfrifol am gynnal y rhwystrau a gellir cysylltu â'r Cyngor unrhyw bryd ar 01656 643643.

**22.** Mae llwybrau amgen ar gael ar hyd Talbot Street a Plasnewydd Street, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr a'r ddwy lôn ddienw sy'n rhedeg rhwng Talbot Street a Plasnewydd Street.


**23.** Wrth ymgynghori ynghylch y Gorchymyn Arfaethedig hwn mae'r Cyngor wedi rhoi sylw penodol i'r hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i ryddid i ymgynnull a nodir yn Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**24.** Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, caiff unrhyw berson sydd â buddiant yn hyn o beth ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu na chydymffurfiwyd â gofyniad o dan y Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos ar ôl dyddiad gwneud y Gorchymyn.

Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ar y

18 Mehefin 2019




## Public Space Protection (Gating) Order

## Talbot Street (r/o), Maesteg

| Scale: 1:750 @ A4 Landscape | Date Issued: 13/02/2018 | N W E S |
|---|---|---|

Mark Shephard
Corporate Director - Communities
Communities Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.


(c) Crown Copyright and database rights (2018) Ordnance Survey (100023405)

(c) Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron (2018) Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans (100023405)

(c) Cities Revealed Aerial Photography copyright, The GeoInformation Group (2009)


Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176

**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus**
**yn ymdrin â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy arfer ei bwerau o dan Adrannau 59 a 72 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

**25.** Daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 18 Mehefin 2019 a bydd yn effeithiol am dair blynedd wedyn, oni chaiff ei ymestyn gan Orchymyn arall o dan bwerau statudol y Cyngor.

**26.** Mae'r tir a nodir gan y map(iau) a atodwyd, sef tir yn ardal y Cyngor, yn dir y mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn gymwys iddo a chaiff ei ddiogelu drwy wneud y Gorchymyn Arfaethedig hwn ("yr Ardal Gyfyngedig").

**27.** Mae'r Cyngor wedi'i fodloni bod yr amodau a nodir yn Adran 59(2) o'r Ddeddf wedi'u bodloni, sef bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau troseddol wedi'u cyflawni yn yr Ardal Gyfyngedig drwy ddefnyddio sylweddau alcoholig meddwol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi creu effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rhai sydd yn yr ardal, ac mae'n debyg y caiff y gweithgareddau eu cyflawni yn yr ardal honno gan greu effaith o'r fath.

**28.** Mae'r Cyngor wedi'i fodloni hefyd fod yr amodau a nodir yn Adran 59(3) o'r Ddeddf wedi'u bodloni, sef bod effaith neu effaith debygol y gweithgareddau'n barhaus neu'n gyndyn eu natur neu'n debyg o fod felly a'u bod yn afresymol ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn a'i bod o dan yr holl amgylchiadau yn hwylus gwneud y Gorchymyn hwn er mwyn lleihau troseddau a/neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn man cyhoeddus.

**29.** Enw'r Gorchymyn Arfaethedig yw Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y Fwrdeistref.

## Drwy'r Gorchymyn Arfaethedig hwn

**30.** Effaith y Gorchymyn hwn yw gosod yr amodau a ganlyn ynglŷn â defnyddio'r tir:

(a) Ni fydd person(au) yn yr Ardal Gyfyngedig yn yfed alcohol, ac ni fydd ganddynt gynhwysydd o alcohol wedi'i agor yn eu meddiant, mewn man cyhoeddus

**31.** Ni fydd yr amodau uchod yn gymwys i'r canlynol:

(a) Mangreoedd a awdurdodwyd gan drwydded mangre i'w defnyddio i gyflenwi alcohol;

(b) Mangreoedd a awdurdodwyd gan dystysgrif mangre clwb i'w defnyddio gan y clwb i gyflenwi alcohol;

(c) Man o fewn cwrtil mangre o fewn paragraff (a) neu (b);

(d) Mangreoedd a all, yn rhinwedd Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003 gael eu defnyddio ar yr adeg berthnasol i gyflenwi alcohol neu a allai, yn rhinwedd y Rhan honno, fod wedi'u defnyddio felly o fewn 30 munud cyn yr amser hwnnw;

(e) Mae lle mae cyfleusterau neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu neu yfed alcohol wedi'u caniatáu ar yr adeg berthnasol yn rhinwedd caniatâd a roddwyd o dan Adran 115 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (dibenion sy'n gysylltiedig â phriffyrdd)

**32.** Mae person sy'n euog o drosedd o fethu â chydymffurfio â'r Gorchymyn Arfaethedig o dan Adran 67 o'r Ddeddf yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000.00 ar hyn o bryd) neu os caiff Hysbysiad Cosb Benodedig gosb o £100.00 ar y mwyaf.

i. Ni chaniateir dwyn achos am y trosedd cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod yn dilyn dyddiad yr hysbysiad; a
ii. Ni chaniateir collfarnu'r person am y trosedd os bydd yn talu'r gosb benodedig cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

**33.** Mae unrhyw berson sydd heb esgus rhesymol yn parhau i yfed alcohol yn yr Ardal Gyfyngedig pan ofynnir iddo beidio gan Swyddog Heddlu, Swyddog Cymorth Cymunedol Heddlu neu berson awdurdodedig o'r Cyngor o dan Adran 63, neu sy'n methu ag ildio unrhyw sylwedd meddwol sydd yn ei feddiant pan ofynnir iddo wneud hynny gan Swyddog Heddlu, Swyddog Cymorth Cymunedol Heddlu neu berson awdurdodedig o'r Cyngor o dan Adran 63 yn cyflawni trosedd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol (£500.00 ar hyn o bryd) neu os caiff Hysbysiad Cosb Benodedig gosb o £100.00 ar y mwyaf.


**34.** Wrth ymgynghori ynghylch y Gorchymyn Arfaethedig hwn mae'r Cyngor wedi rhoi sylw penodol i'r hawl i ryddid mynegiant a'r hawl i ryddid i ymgynnull a nodir yn Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.


**35.** Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, caiff unrhyw berson sydd â buddiant yn hyn o beth ac sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y Gorchymyn neu na chydymffurfiwyd â gofyniad o dan y Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos ar ôl dyddiad gwneud y Gorchymyn.


Rhoddwyd o dan Sêl Gyffredin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr


Ar y


18 Mehefin 2019


Public Space
Protection Order
Bridgend
Scale:
1:7,500
@ A3 Portrait
Date Issued:
12/02/2018
Mark Shephard
Corporate Director
- Communities
Communities Directorate,
Bridgend County Borough
Council, Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend CF31 4WB.
(c) Crown Copyright and database rights (2018) Ordnance Survey (100023405)
(c) Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron (2018) Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans (100023405)
(c) Cities Revealed Aerial Photography copyright, The GeoInformation Group (2009)
Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176
Pendre
Newcastle
Tremains
Whiterock
Ystrad
Fawr
Newbridge Fields
Newbridge Fields (Recreation Ground)
Newbridge Farm
Lletyr-Bont-Newydd
Brewery Field
Hospital
Coleg/
College
Ysgol
Bryn Castell
Emergency
Ppg Sta
Gorsedd
Stones


Brynheulog
Blaencaerau
Blaencaerau Estate
Tudor Park
Caerau
Tudor Estate
Dyffryn
Spelter
Tyderwen
Nantyffyllon
Football Ground
Playing Field
Dismantled Railway
Public Space Protection Order
Caerau
Scale:
1:6,000
@ A3 Portrait
Date Issued:
13/02/2018
Mark Shephard
Corporate Director - Communities
Communities Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.
(c) Crown Copyright and database rights (2018) Ordnance Survey (100023405)
(c) Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron (2018) Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans (100023405)
(c) Cities Revealed Aerial Photography copyright, The Geoinformation Group (2009)
Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176


Public Space Protection Order
Maesteg
Scale: 1:5,000
@ A3 Landscape
Date Issued: 13/02/2018
Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176
Y Parc
Public Park
Sports Centre
Rugby Football Ground
Cricket Ground
Sports Ground
Playground
Ysgol Maesteg/ Maesteg School
Heol-Ty-Gwyn Industrial Estate
Llynfi Enterprise Centre
Recycling Centre
Tair Waun Farm
Playing Field
Llynfi River
Workings (dis)
Dismtd Rly
BRIDGE STREET
CHURCH STREET
TALBOT STREET
COMMERCIAL STREET
IVOR STREET
WEST STREET
ALFRED STREET
MEADOW ST
CWMDU STREET


Public Space
Protection Order
Pencoed
Scale:
1:10,000
@ A3 Portrait
Date Issued:
13/02/2018
Mark Shephard
Corporate Director
- Communities
Communities Directorate,
Bridgend County Borough
Council, Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend CF31 4WB.
(c) Crown Copyright and database rights (2018) Ordnance Survey (100023405)
(c) Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron (2018) Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans (100023405)
(c) Cities Revealed Aerial Photography copyright, The GeoInformation Group (2009)
Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176
Hirwaun Common
Pen-prysg
Tonffre
Pencoed
School
Factory
Playing Fields
Sports Ground
Bloomfield Farm
Pencoed Farm
Morfa Llangrallo



PORTHCAWL
Nottage
Newton
Public Space
Protection Order
Porthcawl
Scale:
1:12,000
@ A3 Landscape
Date Issued:
13/02/2018
Development Planning - Mapping Tel: (01656) 643176